



Efaciwis ...tud. 5

tud 3

Pobl a Phethe

tud 7

Cau Capel

tud 10

Rali CFFl

tud 12

Hyfforddwyr

ROWND Y BYD

Her y Global Solo Challenge



Mae Dafydd Hughes, Tŷ Ceulan, Tal-y-bont yn anelu i fod yr ail Gymro yn unig i hwylio o amgylch y byd heb stopio - a hynny ar ei ben ei hun.

Mae Dafydd wedi cofrestru i gymryd rhan yn y 'Global Solo Challenge' y flwyddyn nesaf. Mae'r ras yn dechrau a gorffen ym mhorthladd A Coruña yng ngogledd Sbaen. Mae'n rhaid

i'r ymgeiswyr hwylio tri phrif benrhyn cyn gwneud eu ffordd i'r llinell derfyn. Y tri phenrhyn yw'r Penrhyn Gobaith Da yn Ne Affrica, *Cape Leeuwin* yn Awstralia a'r *Cabo de Hornos* yn Ne America.

Mae'r her yn debygol o gymryd dros 200 o ddiwrnodau i Dafydd, mewn cwch sydd newydd ddychwelyd i'r dŵr ar ôl bod ar dir sych ers bron i 20 mlynedd. Mae Dafydd wedi bod yn gweithio ar y cwch ers dwy flynedd i'w wneud yn addas eto ar gyfer y môr.



'Sparkman and Stephens' 34 troedfedd yw model y cwch, a Bendigedig yw'r enw mae Dafydd wedi'i roi iddo. Roedd Dafydd yn rhan o griw'r morwr chwedlonol Syr Robin Knox-Johnston a hwyliodd o amgylch y byd yn 2007. Ar ôl dwy flynedd o adnewyddu Bendigedig mae wedi ei osod yn ôl yn y dŵr yn harbwr Aberaeron. Bydd Dafydd nawr yn dod i'w adnabod ar y môr, cyn ymgymryd â phrawf a fydd yn caniatáu iddo gymryd rhan yn y ras. Mae'r 'Global Solo Challenge' yn ras newydd a fydd yn dechrau ym mis Medi 2023.

Dywed Dafydd mai dim ond tua 180 o bobl sydd erioed wedi hwylio o gwmpas y byd ar ben eu hunain - llawer llai na'r 600 sydd wedi bod yn y gofod - felly mae'n dweud ei fod yn wynebu "tipyn o her." Ni fydd Dafydd yn cael cymorth, ond bydd yn cadw mewn cysylltiad â thîm ar y tir trwy ffôn lloeren. Pob hwyl i Dafydd a'r Bendigedig ar yr ymarfer a byddwn yn cadw llygad ar ei ymdrechion dros y flwyddyn nesaf.

Papur Pawb

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau

Priodas Ffion a Siôn - Ar Fai 7fed priododd Ffion a Siôn Southgate yn 'Welsh Green Weddings', Fferm Penybanc, Llandysul. Yn y llun mae Ffion a Sion a'u meibion bach Owain ac Osian

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gemma Burnham a'i theulu ar golli ei mam, Alex yn ddiweddar.

Mrs Eluned Evans

Mae teulu Mrs Eluned Evans, Maesyderi, a fu farw ym mis Mai, am fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad am bob cydymdeimlad a charedigwrydd mae'r gymuned arbennig yma wedi estyn tuag atynt yn ystod y cyfnod trist o golli mam annwyl. Yn ogystal â'r caredigrwydd a'r cydymdeimlad hoffent ddiolch am y cardiau, y galwadau a'r atgofion hapus am mam mae pobl wedi rhannu gyda ni. Diolch.

Bydd teyrnged yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o'r papur.

A Gymri Di Gymru?

Braf oedd clywed perfformiadau a dehongliadau Grwpiau Llefaru B110 dan 19 oed (dysgwyr) o ddarn o farddoniaeth Robat Gruffydd, Tal-y-bont sef *A Gymri Di Gymru?* yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych.

Swydd Newydd

Pob hwyl i Susan Rowlands, Erglodd ar ei swydd newydd yn Y Gegin Fach, Machynlleth.

Yn yr Ysbyty

Braf clywed bod Mrs Edwina Rhodes, Maes-y-felin, Tal-y-bont, wedi dychwelyd adref wedi cyfnod yn Ysbyty Bronglais. Pob dymuniad da iddi hi a'i gŵr, Ian, sydd ar hyn o bryd yng nghartref gofal Plas Cwmcynfelyn.

Babis Newydd

Croeso i'r byd i Magi Elisabeth Rewbury, merch fach i Nerys Roberts Rewbury a Todd Rewbury ac hefyd i Katelyn merch newydd brawd Nerys, Iestyn Roberts, a'i wraig Kate, a chwaer fach i Owen, Charlie ac Abigail. Mae Magi a Katelyn yn wyresau newydd i Eirian Roberts, 90 Maes-y-deri, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau i'r rhieni newydd ac i mam-gu.

Cartref newydd

Croeso cynnes i'r Parchedig Nicholas Bee sydd wedi symud i 6 Tan y Foel, Eglwys Fach.

Penblwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Eifion Jones a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen

Llongyfarchiadau i Heledd Davies am ddod yn 1af ar yr unawd o sioe gerdd, opera ysgafn neu ffilm i rai dan 19oed.



Non a Swyn Jones yn y *Race for Life* yn Aberystwyth ar y 15fed o Fai, gynhaliwyd i godi arian tuag at elusen Ymchwil Cancr.

Eisteddfod Yr Urdd

Llongyfarchiadau i Caiomhe Melangell, Bontgoch, aelod o barti deulais Adran yr Urdd, Aberystwyth, a gipiodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Dinbych.

Llongyfarchiadau

Dyfarnwyd gradd DLitt Prifysgol Bangor yn ddiweddar i Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont, am ei weithiau cyhoeddedig. Llongyfarchiadau iddo.



Llongyfarchiadau i Jen Evans ar gwblhau'r *Moonwalk* yn Llundain a chodi swm anhygoel at elusen cancr y fron.



SIOE ARDDWRIAETHOL LLANGYNFELYN

Mae'r Sioe yn edrych ymlaen i ddod yn ôl i'r gymuned ar ôl absenoldeb o ddwy flynedd. Y mae pwyllgor newydd wedi ei sefydlu i symud y Sioe ymlaen.

Yn anffodus ni fydd Sioe yn cael ei chynnal eleni ond rydym yn gobeithio cynnal gweithgaredd arall ar y Sadwrn cyntaf o Fedi yn Llanfach. Gobeithiwn gynnal bore coffi neu de prynhawn, gyda gweithgareddau i gynnwys y gymuned, rhywbeth tebyg i *Bake Off* i blant ac oedolion.

Hoffem gael syniadau eraill, cefnogaeth ac adborth ar sut i fynd a'r Sioe ymlaen. Hefyd rydym yn dal i edrych am o leiaf un person arall i ymuno â'r pwyllgor i sicrhau dyfodol y Sioe.



Siarter Iaith

Rydym yn ffodus o gael pobl gweithgar yn hyrwyddo egwyddorion y Siarter Iaith yma yng Ngheredigion. Yn ystod y gaeaf, efallai i chi gofio bod Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Craig-yr-wylfa wedi creu podlediad ar y cyd am bwysigrwydd Cors Fochno yn yr ardal. Yn ddiweddar, mae Ysgol Tal-y-bont wedi ymuno gyda holl ysgolion Ceredigion i greu tudalen mewn comic a fydd yn ymddangos erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolch yn fawr i Beth o gwmni *Cisp* am y gweithdy ac am ein harwain drwy'r broses mor amyneddgar. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld y gwaith mewn lliw llawn cyn hir.

Llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Dros y blynnyddoedd diwethaf mae plant yr ysgol wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau Technoleg Gwybodaeth. Un maes y mae'r plant wedi ei fwynhau yn arbennig yw creu animeiddiad. Ac mae'n amlwg fod hi'n werth gwneud hyn gan fod Minnie wedi cael y wobr gyntaf am greu ffilm bychan yn dilyn Y Blobs yn cael picnic digon helbulus! Aeth Minnie ati'n hollol annibynnol i greu ei champwaith. Mae'r ffilm yn wir werth ei gweld a gallwch cael cipolwg arni ar dudalen *Twitter* yr ysgol. Llongyfarchiadau enfawr i ti Minnie, rydym yn brawd iawn o dy llwyddiant.



Ysgol Iach

Diolch yn fawr i Bethan a Fergus o'r *RNLI* am ddod i'r ysgol ac am ein dysgu sut i fod yn ddiogel ar y traeth. Mae eich negeseuon mor bwysig i ni gyd eu cofio, gan obeithio y cawn ni haf hyfryd o allu mwynhau ar lan y môr. Mae'n amlwg o'r lluniau fod y plant wedi cael awr ddifyr yn eich cwmni.

Ysgol Eco

Hyfryd iawn oedd gallu parhau â'r cysylltiad gyda Coetir Anian yn ystod y mis. Cafodd plant Blwyddyn 3 a 4 brofiadau gwerthfawr ynghanol y coetir sydd ger Glaspwll. Mae'r llecyn yn cael ei ddefnyddio i adfer cynefinoedd ac mae'n rhoi cyfleoedd i bobl ryngweithio â natur mewn gwahanol ffyrdd. Mae hynny'n cynnwys cynnal gweithdai gydag ysgolion lleol. Diolch yn fawr i Clarissa a Nia am y croeso a'r gweithgareddau celf hyfryd. Gobeithio eich gweld chi eto'n fuan.



Blwyddyn 3 a 4 hefyd aeth ar wibdaith i weld gweilch y Dyfi – chi'n blant ffodus iawn! Hoffem ddiolch yn fawr i Sarah ac Emyr am ddiwrnod difyr ac am y straeon diddorol. Roedd pawb yn hapus eu bod wedi gweld Telyn, Idris, Bob 1 a Bob 2!

**Cadw'n Heini Cadw'n Iach
Pêlwyd yr Urdd**



Oni bai am frwdfrydedd heintus y plant, mae'n bosib na fyddem wedi creu amser i fynd i gystadlu ym Mhonrhydfendigaid eleni. Ond, roedd hi wir werth yr ymdrech. Da iawn chi am gystadlu mor frwd ac am eich llwyddiant wrth chwarae yn erbyn ysgolion eraill Ceredigion. Roedd y tîm yn agos iawn i fynd ymlaen i'r rowndiau terfynol – da iawn chi. Diolch hefyd i Urdd Gobaith Cymru am drefnu'r gystadleuaeth.

Fe wnaeth y penderfyniad i gystadlu agor y drws i ffrindiau caredig ddangos eu cefnogaeth i'r ysgol. Diolch yn fawr i Jenny Southgate Jenkins am ei brwdfrydedd wrth hyfforddi'r tîm ac i Wendy am eich cynorthwyo. Diolch o galon hefyd i Jenny a *MW Scaffolding* am brynu rhwydi newydd i'r ysgol, rydym mor ddiolchgar. Roedd y merched wrth eu boddau efo'r croissants hefyd – plant lwcus iawn!

Mae'r plant hynaf hefyd wedi bod yn cael gwersi seiclo'n ddiogel ar y ffordd yn ddiweddar hefyd ac mae'n braf clywed fod pawb wedi pasio – da iawn chi gyd.

Tal-y-bont

Efaciws



Mae ein prosiect am fywyd efaciws wedi parhau yn ystod y mis. Roedd hi'n hyfryd croesawu Kate a Bethan atom unwaith eto i gynnal gweithdy arall am fywyd yr *evacuees* yn ardal Tal-y-bont. Y tro yma roedden nhw wedi gofyn i'r plant ddychmygu y cyfnod wedi'r rhyfel pan oedd yr *evacuees* yn edrych yn ôl ar eu cyfnod yma. Roedd llawr o'r atebion yn dangos fod y plant wedi deall sut oedd bywyd i'r plant ddaeth atom o Lerpwl a Llundain ac wedi deall effaith y rhyfel arnyn nhw ac ar y bobl leol. Penderfynwyd manteisio ar y cyfle i wisgo dillad o'r cyfnod a hoffwn ddiolch o galon i chi blant am eich gwisgoedd gwych. Diolch yn fawr am drefnu'r gweithgareddau diddorol ac am ddod â'r cyfnod yn fyw. Mae'r prosiect yn rhan o gydweithio rhwng yr ysgol ac Adran Hanes Prifysgol Aberystwyth a phrosiect "Lleisiau pobl mewn rhyfel pobl 1939-1945".

Y Celfyddydau

Roedd hi mor braf i gael roi'r cyfle i'r plant fynychu cynhyrchiad theatrig yn ystod y mis. Dros yr haf mae Cwmni Theatr Arad Goch wedi mynd ar daith ar hyd a lled Cymru i gyflwyno hanes Twm Siôn Cati. Roedd yn gyfle i'r plant fod yn rhan o gyffro'r oes pan oedd lladron penffordd yn crwydro'r broydd a neb yn fwy enwog na Twm Siôn Cati. Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Dregaron ym mis Awst, pa ffordd well i baratoi na chlywed hanes un o gymeriadau mwyaf enwog a drygionus yr ardal. Diolch Arad Goch am berfformiad cofiadwy.

Gwyliau haf dedwydd i holl ddarllenwyr Papur Pawb

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

**Michael Rowlands**
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Yna ar ddiwedd y mis, pleser pur oedd croesawu Gwen Billingham, gynt o Alltgoch i'r ysgol. Mae Gwen wedi cyfrannu cymaint i'n prosiect am yr *evacuees* ac roedd hi mor braf gallu cael sgwrs gyda hi. Gwen sydd wedi ein cyflwyno i gymeriad hoffus iawn o'r enw Will Crye a fu'n aros am gyfnod hir yn Alltgoch a dwi'n siŵr y byddwch yn clywed mwy o hanes Mr Crye yn y dyfodol agos.

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk


Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Bydd llawer yn cofio cyn brifathro Ysgol Gynradd Tal-y-bont, Ithel Jones, Wern, gyda hoffter. Roedd ei gymwynasau i'r ardal yn niferus nid y lleiaf ohonynt oedd ei waith fel clerc i Gyngor Plwyf ac yna Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr rhwng 1952 a 1979.



Ithel Jones

Mae'n anodd credu taw swm y dreth a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ystod 1952-53 oedd £115 a dyna'r cyfan oedd ganddynt i'w wario heblaw'r incwm a ddaeth i law o ganlyniad i'r taliadau am gladdu yn y fynwent, gan rodi cyfanswm am y flwyddyn o £169. Gwariwyd traean o'r incwm ar gynnal y fynwent a thraean arall ar oleuo strydoedd Tal-y-bont a Bont-goch, gyda'r gweddill ar gostau gweinyddol.

Cyn cyfnod y Swyddfa
Gymreig bu'n rhaid gohebu'n
gyson â gweinidogion y goron yn Llundain am faterion lleol. Ar
ddechrau'r 1960au bu gohebu â'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth yn
Berkeley Sq, Llundain am ddarn o dir gerllaw y Bont Fawr. Yn
Chwefror 1965 rhaid oedd ysgrifennu at y Weinyddiaeth Amaeth
yn Whitehall i ddadlau achos ffermwyr lleol oedd yn cwyno am y
taliadau draenio dŵr a ddaeth i rym yn sgîl y 'Land Drainage Act'.

Dynion oedd y Cyngorwyr i gyd ac fe ddengys rhestr cyngorwyr 1970 fod yr arfer o ethol gwŷr yn unig wedi parhau tan yn gymharol ddiweddar.

Ymhlith y materion a drafodwyd gan y Cyngor yn ystod cyfnod Ithel fel clerc, ac sydd i'w gweld yn y llythron a dderbyniwyd neu a anfonwyd ganddo i'r gwahanol awdurdodau yr oedd y canlynol.

Roedd dŵr yn gorlifo o'r dreiniau yn ardal Penrhylog ac yn mynd i'r tai a'r garejys yn ôl llythyr oddi wrth Glenys Evans. Yn 1958 cwynodd Ithel am gyflwr y gwter yn Birkenhead St a chafodd llythyr gan D.G. Bowen ar ran Cyngor Dosbarth Gwledig Aberystwyth yn nodi 'Bum yng ngolwg y gwter heddiw ac yn ddiau y mae angen gwella ei chyflwr'.

Cosbwyd gyrrwyr am barcio eu ceir dros nos o flaen y Llew Gwyn a'r Llew Du heb oleuadau parcio. Yn Chwefror 1965 gwrthododd y Prif Gwnstabl J. Roland Jones gais y Cyngor i lacio'r rheolau.

Yn 1969 derbyniwyd deiseb gan bentrefwyr (mynychwyr y Llew Gwyn yn bennaf) yn dadlau yn erbyn colli tir o'r Patshyn Glas ar gyfer arhosfan bysiau. Beth fyddai eu barn heddiw am yr holl dir a feddiannwyd ar gyfer yr arhosfan bresennol?

Codwyd yn gyson yr angen i ddarparu llefydd pasio ar y ffordd gwledig er mwyn caniatáu i lorïau gyrraedd y ffermydd yn ddidramgwydd.

Pan roddodd Ithel y gorau i'w waith fel clerc cymerwyd at y gwaith gan Mrs Glenys Evans, Isallt, Tal-y-bont, ac mae'n ymddangos fod llawer o archifau'r Cyngor wedi cyrraedd Isallt ac wedi eu cadw'n ddiogel yn yr atig yno. Ddechrau'r flwyddyn eleni, wrth i Gwenllïan ac Arvid Parry-Jones (merch a mab-yng-nghyfraith Glenys) fynd ati i glirio fe ddaeth yr holl ddogfennau i'r golwg unwaith eto ac fe'i trosglwyddwyd i ofal Megan Mai, Cadeirydd presennol y Cyngor ar gyfer eu cadw'n ddiogel.



Glenys Evans

Ym Medi 1958 llwyddwyd i ddarbwyllo Swyddfa'r Post i osod blwch post ar ochr y briffordd ger stâd newydd Maes-y-deri. Y bwriad gwreiddiol oedd ei osod ochr draw y ffordd ond newidiwyd y penderfyniad ar ôl i'r Cyngor dynnu sylw at y perygl i'r defnyddwyr wrth orfod croesi'r ffordd fawr i bostio.

Mis Gorffennaf 1963 anfonwyd at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt greu *lay-by* ger y fynwent.

Yn Chwefror 1964 roedd y Pwyllgor Addysg wedi cytuno i 'roi teleffôn ymhob ysgol sydd tua hanner milltir oddi wrth y giosg' Hysbyswyd y clerc nad oedd Ysgol Talybont ar y rhestr i dderbyn teleffôn.

O Fawrth 1964 ymlaen bu'r clerc yn gohebu â gwahanol ffynonellau grant er mwyn cael cymorth i greu maes chwarae plant yn Nhal-y-bont.

Fe ddaeth y 'Talybont Improvements Committee' i ben ym mis Gorffennaf 1960 a throsglwyddwyd i ofal y Cyngor 11 o feinciau cyhoeddus a brynwyd gan y Pwyllgor ar hyd y blynnyddoedd.

Ar 31 Mawrth 1960 ysgrifennwyd at y Prif Bostfeistr yn Swyddfa'r Post, Aberystwyth yn gofyn iddo osod dau beiriant gwerthu stampiau yn y pentref, un i werthu stampiau dimau (½d) a'r llall i werthu stampiau ceiniog (1d). Cytunwyd i'r cais.

Ym mis Mawrth 1970 derbyniwyd llythyr gan Elystan Morgan AS yn dweud ei fod yn pwysu ar yr awdurdodau i agor ffatri barod yn Nhal-y-bont, ar gais y Cyngor.

Diddorol yw edrych ar rai o'r biliau a dalwyd hanner can mlynedd yn ôl gan y Cyngor.

Cost llogi gwaelod y neuadd ar gyfer cyfarfod pwyllgor yn 1972 oedd 50c. Codwyd y tâl i £1.00 y cyfarfod yn 1975.

Torrwyd y gwair ar y Patshyn Glas ar 7 achlysur yn ystod haf 1972 a thalwyd cyfanswm o £10 am y gwaith i Mr W.F. Roberts. Rhaid i bob Cyngor gael yswiriant a chost polisi 'Public Liability' y clerc yn 1972 oedd £5.00.

Yn 1976 fe wnaeth Enid Gruffudd, Ysgrifenyddes Pwyllgor yr Ysgol Feithrin anfon gair at y clerc i ddiolch am ‘y rhodd hael o £100 tuag at gynnal yr Uned Feithrin’. Mae arfer y Cyngor o gefnogi mudiadau teilwng yn parhau hyd y dydd heddiw.

DPhD



**CANOLFAN
M.O.T.**

**HUW
LEWIS**

**M.O.T.
CENTRE**

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



TEIARS

**HUW
LEWIS**

TYRES

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166

MACHYNLLETH 01654 700000

LLANBED 01570 422221

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsas a Bubblewrap

**Wales
REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Hool Y Doll, Machynillioth, SY20 8BQ

**MID WALES
STORAGE**

www.midwalesstorage.co.uk

PORTREADAU ARVID



Yn rhifyn Ionawr 1982 o Bapur Pawb ceir y llun hyfryd hwn gan Arvid o Enid James, Henllan, Tal-y-bont. Falyri Jenkins aeth draw i holi Mrs James ar ei hymddeoliad fel nyrs yn Ysbyty Bronglais.

Dydd Gwener, Rhagfyr 18ed, ymddeolodd Mrs Enid James o'i swydd fel nyrs yn ysbyty Bronglais wedi iddi fod yn nyrsio am dros bum mlynedd ar hugain. Cychwynodd ar ei gyrfa trwy ymuno a'r 'Civil Nursing Reserve' yn Henffordd ar ddechrau'r rhyfel a derbyniodd ei hyfforddiant yn Ysbyty Henffordd. Bu am gyfnod yn ysbyty'r dwymyn (Fever Hospital) yn Aberystwyth cyn symud i nyrsio ym 1945 i'r ysbyty yn Ffordd y Gogledd ac yno y bu am ddwy flynedd cyn ymadael i briodi a magu teulu. Ond mae'n amlwg fod nyrsys da yn brin gan iddi dderbyn galwad ffôn un noson yn gofyn iddi ddychwelyd yno i nyrsio drwy oriau'r nos a dyna a wnaeth am dair mlynedd a hanner. Cafodd seibiant o'r gwaith am ychydig hyd nes i'r ffôn ganu unwaith eto yn Ionawr 1963 a chais y tro hwn ar iddi fynd i nyrsio i ward y mamau yn Ysbyty Bronglais. Ac yno y bu hyd nes iddi ymddeol yn ddiweddar. Gwelodd cryn dipyn o newid yn y dull o nyrsio a'r gofal a dderbynia'r cleifion. Ers stalwm roedd yn rhaid diheintio pob offer a ddefnyddid ar y ward, ond erbyn hyn mae popeth yn 'disposable' ac felly golyga hyn fad y cleifion yn cael mwy o amser y nyrsys. Mae safon y gofal a gaiff pob darpar fam yn y clinig hefyd wedi codi gyda llawer o broffion arbennig yn cael eu gwneud er lles y fam a'r plentyn. Yn wir mae Bronglais yn un o'r ychydig ysbyty sydd yn cynnig y rhain a daw llawer o ferched o'r trefi a'r dinasoedd i Fronglais yn unswydd amdanynt. Er i Mrs James roi ei gwisg i gadw bydd un rhan ohoni yn parhau i gael ei ddefnyddio gan ei merch sydd wedi dilyn ôl traed ei mam i'r byd nyrsio, sef y gwregys. Gobaith Mrs James ar ôl ymddeol yw cael digon o amser i wau, gwnïo a chrosio a dymunwn ymddeoliad hapus iddi.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

A'r nos Iau, Mai 19, croesawyd Tegwen Morris, Aberystwyth, Cyfarwyddwraig Cenedlaethol Merched y Wawr atom gan Enid Evans. Penodwyd hi yn 1999 a chawsom ychydig o hanes ei swydd, oedd yn ddiddorol iawn.



Mae Tegwen yn hoff iawn o gerdded a mynd am dro ar hyd llwybr yr arfordir, ac o gwmpas y wlad yn ardal Aberystwyth, gan fynd â'i chamra gyda hi bob amser.

Dangosodd luniau bendigedig o'r tirwedd, y bywyd gwyllt ac adar bach a mawr. Roedd pawb wedi mwynhau'r lluniau yn enwedig y llun o'r Wylan yn dwyn tocyn parcio o ffenestr car ar lan y môr yn Aberystwyth.

Diolchwyd i Tegwen am noson hwyliog gan Enid. Roedd y noson yng ngofal Enid Evans a Mair Rowlands

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy


ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

CAU CAPEL NASARETH



Llun o Capel Nasareth a dynnwyd tua 1910 gan E.O.Jones.

Trist iawn yw cofnodi bod capel Nasareth Tal-y-bont yn cau ei ddrysau ganol y mis hwn. Cynhelir gwasanaeth dadgorffori i nodi'r achlysur yn y capel ar 19 Mehefin am 5.00 dan ofal y gweinidog y Parchedig Ddoctor Watcyn James.

Codwyd capel gwreiddiol Nasareth gan y Methodistiaid Calfinaidd yn 1869 ac fe'i ail-adeiladwyd yn 1905-6, gyda rhes o bileri trawiadol ar draws y fynedfa. Tynnwyd y pileri i lawr yn 1954 pan adnewyddwyd yr adeilad.

Cynhaliwyd yr angladd olaf yn Nasareth ar 26 Mai, sef angladd Mrs Eluned Evans, aelod ffyddlon o'r capel ers blynyddoedd lawer. Yn nalgylch *Papur Pawb*, dim ond un achos fydd gan y Presbyteriaid, sef capel Rehoboth, Taliesin, ac o'r pedwar addoldy a fu mor bwysig yng nghymuned Tal-y-bont dros y blynyddoedd, dim ond un fydd ar ôl bellach, sef Capel Bethel

CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT

Mae hi wedi bod yn amser cyffrous iawn i Gylch Meithrin Talybont yn ddiweddar gan ein bod ni bellach ar agor drwy'r dydd! Mae'r gofal ar gael o 8:15 y bore tan 3:15 y prynhawn. Mae wedi bod yn llewyrchus iawn ond mae fwy o lefydd ar gael felly lledaenwch y neges.

Rydym wedi croesawu Miss Karen fel arweinydd y prynhawn ers y Pasg ac mae hi wrth ei bodd gyda'r plant.

Cynhaliwyd Bingo yn y Llew Gwyn ar nos Wener y 21ain o Fai lle codwyd £418 o bunoedd tuag at y Cylch. Roedd yn noswaith llwyddianus iawn gyda'r lle dan ei sang. Diolch arbennig i Gareth a'i staff o'r Llew Gwyn ac i bawb am ein cefnogi. Rydym yn ei werthfawrogi yn fawr.

Mae hanner tymor prysur iawn o flaen y plant yn y Cylch hyd at wyliau'r haf ac edrychwn ymlaen am ambell drip ac ymweliad.



Bili Broga



Canu

James
Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk

07813 827 712

@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn
siopau lleol.

Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf,
Talybont



Tê parti y Jiwibili

Cynhaliwyd tê parti i ddatlu'r Jiwibili yn nhafarn y Wildfowler. Bu Sefydliad y Merched Taliesin, yn brysus iawn yn paratoi gwledd o gacennau. Diolch yn fawr hefyd i Chris a Michelle Walton am yr holl frechdanau blasus a'r tê a'r coffi.

nice
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 M 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Noson agored yng Nghletwr i aelodau, gwirfoddolwyr a staff

Ar ôl saib rhy hir oherwydd y pandemig, roedd wir yn bleser i allu ail ddechrau'r sesiynau cwestiynu ac ateb ar gyfer aelodau a gwirfoddolwyr. Mae'r rhain yn sesiynau agored i roi cyfle i bawb cael dweud eu dweud er mwyn adnabod heriau a datrysiadau i wella Cletwr ar gyfer y gymuned.

Cafwyd trafodaeth ddiddorol ar amryw bynciau gan gynnwys sut i ddenu a chadw gwirfoddolwyr, a chyfathrebu o fewn Cletwr, a gyda'r gymuned.

Diolch i bawb am eich adborth gwerthfawr.

Cletwr

HYSBYSEB SWYDD:
RHEOLWR BUSNES CLETWR

Mae cwmni Cletwr yn chwilio am reolwr busnes profiadol i arwain y siop a chaffi unigryw a chyffrous hon, sy'n eiddo i'r gymuned.

Am ragor o fanylion, a swydd ddisgrifiad llawn, anfonwch e-bost at admin@cletwr.com

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Cheredigion unwaith eto eleni, dyma lun a dynnwyd ddeng mlynedd ar hugain yn ôl pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn Aberystwyth yn 1992. Yn y llun mae grŵp recorders ysgol Tal-y-bont a gafodd yr anrhydedd o gyfeilio yn y Seremoni Coroni yn y pafiliwn – a hynny'n hynod o raenus. Yn y llun o'r chwith i'r dde:

Cefn: Catrin Jenkins, Rhodri Lloyd-Williams, Eleri James
Blaen: Luned Gwyn, Eleri Lynn, Kate Barron, Dyfan Evans.



Gŵyl y Peillwyr Cletwr



Phil a Juliet Regan gyda'r Gwesty Trychfilod

Mae Cletwr wedi bod yn 'Caru Gwenyn' ers blwyddyn bellach gan eu bont wedi ennill statws 'Caru Gwenyn' Llywodraeth Cymru. I gadw'r statws am flwyddyn arall bu rhaid iddynt ddangos eu bod yn parhau i weithio ar bedair thema'r cynllun sef:

- Bwyd – gwneud yn siŵr bod bwyd ar gyfer peillio yn yr ardal.
- Cartrefi pum seren – darparu lleoedd i bryfed peillio fyw ynddyn nhw.
- Rhydd o blaladdwyr (yn cynnwys pryfleiddiaid a chwynladdwyr) – peidio â defnyddio cemegau sy'n gwneud drwg i bryfed peillio.
- Hwyl – cael y gymuned i gymryd rhan.

Ar Ddydd Sadwrn Mai 21ain, cynhaliwyd Gŵyl y Peillwyr yng Nghletwr i ddangos i'r cyhoedd beth maent wedi llwyddo i wneud. Trefnwyd amryw o weithgareddau diddorol yn cynnwys sgwrs gyda Ali Murfitt ar flodau a'u pryfed peillio, arddangosfa cwch gwenyn, argraffu crysau-t a gwneud bathodynau, lliwio cardiau pryfed ac roedd y Grŵp Garddio yno i ateb cwestiynau ac i ddangos yr amryw o ardaloedd i beillwyr. Mae gardd Cletwr yn edrych yn hynod o hardd ar hyn o bryd a gobeithio byddant yn llwyddiannus yn cadw'r statws 'Caru Gwenyn'.

Cystadleuaeth Paradwys i Beillwyr

Mae Cletwr yn eich gwahodd i greu lle arbennig i beillwyr yn eich gardd yr haf yma. Beth am blannu ychydig o flodau neu goeden flodeuol sy'n denu peillwyr, creu patshyn blodau gwyllt, neilltuo cornel dawel i bryfetach, creu pwll pryfed hofran neu hyd yn oed adeiladu gwesty pryfed i hybu a dathlu'r creaduriaid hyn sydd mor hanfodol i lesiant pob un ohonon ni. Ewch at y wefan yma i gael syniadau: www.foxleas.com

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi wedi bod yn ei wneud ac anfon llun ar gyfer ein sioe sleidiau ddathliadol yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Dyddiad cau: Dydd Sadwrn 3 Medi 2022. Anfonwch geisiadau at events@cletwr.com neu eu lan lwytho i'n tudalen Facebook arbennig Paradwys i Beillwyr (<https://facebook.com/CaruGwenynCletwr/>) gan nodi'ch enw, eich oedran os ydych o dan 16 oed a'r pentref lle rydych chi'n byw. Yn agored i bawb. Bydd gwobr am y llun/gweithgaredd gorau (un i blant o dan 16 ac un i oedolion).

Non yn dathlu deng mlwyddiant Llwyr Arfordir Cymru

Yn ystod 2022 fe fu Llwyr Arfordir Cymru, yr un cyntaf o'i fath yn y byd, yn dathlu ei ddeng mlwyddiant.



Non yn creu

Cafwyd digwyddiad yng Nghas-gwent ar 11 o Fai i nodi'r achlysur gyda cherdd pwrpasol wedi'i gyfansoddi gan Fardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn o'r enw *Bendith Llwyr Arfordir Cymru* yn cael ei gyflwyno i Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru.

Roedd yna gysylltiad lleol i ardal Papur Pawb yn y dathliadau gan mai Non Jones, Tŷ Ni, Tal-y-bont oedd yr arlunydd a gomisiynwyd i greu'r arlunwaith oedd yn

cynnwys darn y Bardd Cenedlaethol a hefyd yn cwmpasu naws syfyrdanol golygfeydd o'r llwyr.

Mae Non, sy'n wreiddiol o Rhydrosser, wedi ymgartrefu yn Nhal-y-bont ers bron 20 mlynedd. Yn ddim syndod felly bod cefn gwlad a natur yn rhinwedd amlwg iawn o'i gwaith celf. Mae'n cael ei chomisiynu i greu gwaith unigryw a phersonol ar gyfer dathliadau o bob math megis priodasau, pen-blwyddi a genedigaethau yn ogystal â darnau mwy cyffredinol sy'n cynnwys diarhebion a dywediadau adnabyddus a doniol. Mae arddull Non yn un modern gyda defnydd o liwiau trawiadol yn ei gweithiau dyfrliw ynghyd â'r defnydd o ddeunyddiau eraill megis llechi a phren.

Mae'n falch iawn o'r adborth cadarnhaol, sydd weithiau'n emosiynol, mae'n ei dderbyn wrth cwsmeriaid a mae hyn yn rhoi boddhad o'r mwyaf iddi. Mae'n ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth mae'n ei derbyn ac mae nifer o'i chwsmeriaid yn rhai sydd yn dychwelyd dro ar ôl tro sydd yn adlewyrchiad cadarnhaol iawn wrth gwrs.

Mae Non yn dod o dras talentog gyda bod darnau o farddoniaeth sy'n cael ei cyfansoddi gan ei mam, Mrs Dilys Baker-Jones a'i llys-tad, Mr Vernon Jones, Gaerwen, Bow Street yn aml yn elfen o'i gwaith sydd yn ychwanegu at wneud y darnau yn hollol unigryw.



Mark Drakeford a'r llun

Mae Llwyr arfordir Cymru yn anhygoel ac yn cynnig golygfeydd amrywiol, amhrisiadwy sydd heb gymhariaeth. Rydym wir yn ffodus iawn o Gymru fach. Yn wir mae Gerwyn, gŵr Non, a chriw o ffrindiau lleol wedi cwblhau tua 440 milltir o'r llwyr, sef tua hanner y cyfanswm, dros gyfnod o ddwy flynedd gan gwblhau'r darn rhwng Phyllheli ac Abertawe. Yn dilyn seibiant o ddwy flynedd oherwydd Covid-19 maent yn gobeithio ail afael â'r her eleni. Mae'n siwr fydd darn Non a'r dathlu deng mlwyddiant yn ysgogiad iddyn nhw ag eraill i fynd amdani.

Mae Non yn mwynhau gwneud y gwaith celf a'i weld yn ffordd dda o ymlacio a dihangfa o fywyd prysur bob dydd sy'n cynnwys gweithio fel Llyfrgellydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, cadw cartref, edrych ar ôl gŵr, tair o ferched ac amryw o anifeiliaid anwes eraill! Dyw hi ddim syndod felly fod Non ddim yn cael llawer o amser i gerdded ei hunan. "*Dwi'n mwynhau cerdded Ceulan y ci yn lleol ac wedi neud rhai darnau o'r llwyr gyda Ger a'r merched*" meddai Non. "*Ond, i ddweud y gwir, dwi'n ddigon balch gweld Ger yn mynd i wneud y cerdded gan ei fod yn rhoi peth amser a heddwch i fi fwrw mlaen 'da'r fframiau!'*" Pawb at yr hyn a bo fel maen nhw'n dweud!

Gallwch weld mwy o waith Non, neu Noni fel mae pawb yn ei hadnabod, drwy ymweld â'i thudalen Facebook **Nwyddau Noni**, <https://www.facebook.com/NwyddauNoni/> ac Instagram @nwyddaunoni

Rali CFfl



Rhai o'r aelodau fu'n beirniadu stoc. Enillwyd y cwpan am y marciau uchaf yn y tair adran. Yn y llun mae Bedwyr ac Ynyr Siencyn a Sara Jenkins.

Dyma enillwyr lleol y Rali:

- Cwpan am y marciau uchaf yn y tair adran barnu stoc
- Trefnu blodau: Teleri Morgan 3ydd
- Cneifio gyda gwellau unigol: Bedwyr Siencyn 1af
- Barnu gwartheg Henffordd Tim: Bedwyr ac Ynyr Siencyn a Richard Jenkins 2il
- Barnu gwartheg Henffordd o dan 16: Ynyr Siencyn 3ydd
- Barnu merlod mynydd Cymreig o dan 16: Lois Jones 2il
- Arwydd hysbysebu'r Rali: 3ydd
- Trin gwlan unigol: Bedwyr Siencyn 1af; Sara Jenkins 3ydd



Llun o arddangosfa trefnu blodau Teleri Morgan a ddaeth yn 3ydd.

Rhannu sgiliau tyfu bwyd ym Miosffer Dyfi



Cyfle i rannu sgiliau garddio ar draws safleoedd cymunedol ym Miosffer Dyfi gyda Tyfu Dyfi

Mae prosiect Tyfu Dyfi yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â rhwydwaith o arddwyr ar draws y Biosffer sy'n fodlon rhannu eu brwdfrydedd a'u gwybodaeth ag eraill, ac mae'n cynnal digwyddiad rhagarweiniol ddydd Gwener 24 a dydd Iau 30 Mehefin yn Aberystwyth.

Mae gwirfoddolwyr garddio Tyfu Dyfi yn rhannu eu sgiliau tyfu bwyd mewn ysgolion, gerddi cymunedol, canolfannau gofal dydd neu'n syml gyda'u ffrindiau a'u cymdogion, ac maent yn derbyn hyfforddiant a chymorth rheolaidd yn gyfnewid am ddim ond cwpl o oriau'r mis o'u hamser.

Trefnir y cwrs rhagarweiniol rhad ac am ddim gan yr elusen arddio Garddio Organig (Garden Organic) yn y DU mewn partneriaeth â Bwyd Dros Ben Aber a phrosiect AnTir, Tir Coed, a bydd yn cynnwys ymweliadau ag o leiaf ddau safle tyfu cymunedol yn Aberystwyth.

YR URDD YN GANT OED

Roedd Aelwyd yr Urdd Tal-y-bont yn hynod o fywiog yn yr 1970au-80au ac yn cael llawer o hwyl mewn nifer o weithgareddau.

Un ohonynt oedd cymryd rhan yng nghystadleuaeth ‘Siandifang’ yn ystod haf 1978. Dyma’r adroddiad ar y gystadleuaeth a gyhoeddwyd yn rhifyn Mehefin o *Bapur Pawb*:

‘Yn Llanelwedd hefyd cafwyd hwyl fwy’r flwyddyn pan aeth tîm o’r aelwyd i gystadlu yn y SIANDIFANG. Cystadleuaeth oedd hon, digon tebyg i “It’s a Knock-out” wedi’i threfnu gan y BBC ac i’w ddarlledu fel cyfres o raglenni yn yr Hydref. Roedd 9 aelod yn y tîm, yn ogystal â’r arweinydd, yn ymdrechu’n galed i ennill pwyntiau i’r aelwyd. Ar ôl prynhawn cyfan o gystadlu, daethom yn ail i Ysgol Llanidloes, ac am fod y ddau gynta’n mynd ymlaen i’r rownd derfynol, rydym yn mynd i Glanllyn mewn mis i wneud rhaglen arall.’



Dyma’r tîm a fu’n cystadlu dros yr Aelwyd yn 1978. Pwy sy’n medru enwi’r aelodau? Anfonwch yr enwau at y golygydd cyffredinol. Byddwn yn eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf.

Y Gair Olaf

Dwi’n eistedd yn y gegin ac yn crafu fy mhen, beth ydw i am gael y gair olaf yn ei gylch? Beth sydd wir yn fy mhoeni?

Mae Pinochio yn dod i’r meddwl. Pam tybed? Ydych chi cofio’r stori? Roedd ei drwyn yn tyfu efo bob celwydd roedd o’n ei raffu. Dwi wedi cael llond bol ar yr holl gelwyddau sydd yn dod o enau un dyn o Lundain, sy’n benderfynol o beidio colli ei le da. Wedi’r cyfan, mae rhywun, nid efe, er ei fod yn taeru fel arall, wedi talu miloedd ar filoedd am ail addurno ei fflat foethus yn 10 Stryd Downing.

Faint o filiynnau o arian trethdalwyr gafodd ei wastraffu trwy rhoi contractau hael i’w gyfeillion? Pa mor wastraffus ac aneffeithiol oedd cael cyflenwadau o PPE addas i staff y rheng flaen? Pam rhoi system profi ac olrhain Lloegr yn nwylo cwmni preifat oedd ond am wneud elw?

Gallwn ymfalchio yma yng Nghymru bod gennym ni Lywodraeth oedd yn poeni am y bobl dan ei ofal. Bu cydweithio agos yma a rhoddwyd cyllid cyhoeddus i gyrff cyhoeddus, megis yr Awdurdodau Lleol a’r Byrddau Iechyd a oedd yn gwybod i beidio gwastraffu arian wedi blynyddoedd o doriadau enbyd ac yn gwybod sut i sicrhau y gorau i bobl ar lawr gwlad. Toriadau a welodd gwanio ein gwasanaethau cyhoeddus a’n gwasanaethau iechyd gymaint fel nad oes ganddynt bellach y staff i ymateb yn ddigonol i’r galw am ofal.

Siawns ei bod yn hen bryd i ni daflu’r iau Brydeinig oddi ar ein gwarau a dysgu sefyll ar ein traed ein hunain fel Cymry balch.

Ellen ap Gwynn

Ffrydwyr, chwaraewyr gemau & a gweithwyr caled o adref

ADOLYGIADAU
★★★★★
★ RHAGOROL



I gael cyswllt di-rwystr,
beth am gael band-eang
ffeibr gwibgyswllt yng
Ngheredigion heddiw!



Hyd at
1Gbps o £19.99*

COFRESTRWCH HEDDIW MAE’N RHAD AC AM
DDIM A DOES DIM RHWYMEDIGAETH

“Wnaethon ni erioed
feddwl y bydden
ni’n cael ceblau
ffeibr yma i ddweud
y gwir.
Mae wedi bod o fudd i’r teulu
cyfan. Dyma’r dibynadwydd
yr oedden ni ei angen.”

Anne James
Ambleston, Pembrokeshire



broadwaybroadband.co.uk

BROADWAY
BROADBAND

*Mae T&A yn berthnasol, gweler y wefan am fanylion llawn. Cyflymder cyfartalog hyd at 900Mbps gyda phecyn 1Gbps. Pris fesul mis calendr am gongtract 12 mis. Cwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yw Broadway Partners Ltd (yn masnachu fel Broadway Broadband), ei rhif cwmni yw 07702073, ac mae ei swyddfa gofrestredig yn Tempest Building, Tithebarn Street, Lerpwl L2 2DT

Pwy bynnag, ble bynnag - rydyn ni'n cysylltu cymunedau

Chwaraeon a Hamdden

GRUFF YN ENNILL



Dyma Gruff Lewis, Tabernacl, Tal-y-bont, yn croesi'r llinell derfyn wrth ennill y ras feics enwog Pont Hafren. Llongyfarchiadau iddo.

DAU HYFFORDDWR



Ddiwedd Mai, fe fu rheolwr tîm pêl-droed Cymru, Robert Page, yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol ac fe gafodd Mark Evans, Tal-y-bont, y fraint o gwrdd ag ef. Mae Mark yn hyfforddi timau plant yn lleol ac mae'n siŵr iddo roi ambell i bwt o gyngor i Mr Page! Beth bynnag oedd cyngor Mark, fe lwyddodd Robert Page i arwain Cymru i Gwpan y Byd. Braf hefyd oedd gweld y bachgen lleol Rhys Norrington-Davies yn dod i'r maes yn eilydd yn y fuddugoliaeth dyngedfennol yn erbyn Wcrain. Edrychwn ymlaen at ei weld yn Qatar ym mis Tachwedd.

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

Ennill yn yr Wyl Tyddyn a Chefn Gwlad



Bu Megan Williams, Cletwr Side, Tre'r Ddôl yn llwyddiannus yng Ngŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ar yr 21ain o Fai. Daeth Megan a Pixiesmeadow Django yn ail yn nosbarth y 'Coloured Horse and Pony Society - CHAPS' ac yn ail yn y dosbarth i farchogion ifanc canolradd. Mae hyn yn golygu bydd Meg yn mynd trwyddo i'r rownd derfynol ym mis Awst ym mhencampwriaeth CHAPS yn Arena UK, Grantham.

'Cynorthwy-ydd gwerthu'

24 awr yr wythnos / £9.90 yr awr

Gwaith penwythnos ar sail rota.
Os gwelwch yn dda anfonwch CV at llythyr cais
cletwr@cletwr.com at sylw Aaron

www.cletwr.com
01970 832 113 cletwr@cletwr.com

Cletwr